

Gwyllu'r Gorwel? Grym amser ac iwtopia yn stori fer 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol' Joseba Sarrionandia

Patrick Carlin 

Cyfeirnod:

Carlin, P. (2026), 'Gwyllu'r Gorwel? Grym amser ac iwtopia yn stori fer "Amser Presennol ac Amser Gorffennol" Joseba Sarrionandia', *Gwerddon*, 41.

<https://doi.org/10.61257/GWER4104>

Cyhoeddwyd: Mawrth 2026

Arfarnu:

Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cyfnodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hawlfraint:

© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler <http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/>.

Mynediad agored:

Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

Gwyllu'r Gorwel? Grym amser ac iwtopia yn stori fer 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol' Joseba Sarrionandia

Patrick Carlin 

Crynodeb: Ymdrinnir yn yr erthygl hon â'r stori fer 'Denbora Presentea eta Denbora Pasatua' ('Amser Presennol ac Amser Gorffennol') yn y casgliad o gerddi 'Hnuy illa nyha majah yahoo: Poemak 1985–1995 (cerddi 1985–1995) gan yr awdur o Wlad y Basg, Joseba Sarrionandia. Defnyddia'r awdur ddigwyddiadau gwaedlyd mis Mawrth 1988 ym Melfast, Llyfr XI *Cyffesion Awstin Sant*, yn ogystal â'r thema o deithio drwy amser sy'n ymgorddeddu drwy'r stori fer, er mwyn ymchwilio i natur a grym amser a'r berthynas rhyngddo a hunaniaeth, cenedlaetholdeb, alltudiaeth a pherthyn gwleidyddol. Dadansoddir yr elfennau hyn yng nghyd-destun gwleidyddiaeth estheteg a llenyddiaeth yn ogystal â'r berthynas rhwng hunaniaeth a thrais gwleidyddol, gan gyfeirio at waith nifer o ysgolheigion, yn eu plith yr athronydd Jacques Rancière, y theorïwyr gwleidyddol Naeem Inayatullah a David Blaney, yr ysgolhaig beirniadol Jenny Edkins a'r economegydd gwleidyddol Amartya Sen, a hynny er mwyn dadlau bod y cysyniad o wahaniaeth o fewn cymunedau gwleidyddol yn ogystal â rhyngddynt yn parhau i fod yn greiddiol i fywiogrwydd diwylliannau sy'n cydfodoli â'i gilydd.

Allweddeiriau: Joseba Sarrionandia, amser, iwtopia, cenedlaetholdeb, alltudiaeth, perthyn gwleidyddol, trais gwleidyddol.

Halved by a Horizon? The power of time and utopia in Joseba Sarrionandia's short story 'Time Present and Time Past'

Summary: This article deals with the short story 'Denbora Presentea eta Denbora Pasatua' (Time Present and Time Past) in the collection of poems 'Hnuy illa nyha majah yahoo: Poemak 1985–1995' (Poems 1985–1995) by the Basque writer Joseba Sarrionandia. Using the bloody events of March 1988 in Belfast, Book XI of *The Confessions of Saint Augustine* as well as the theme of time travel that runs through the short story, Sarrionandia investigates the nature and power of time and its relation to identity, nationalism, exile and political belonging. These elements are analysed in the context of the politics of aesthetics and literature as well as the relationship between identity and political violence. Reference is made to the work of a number of scholars,

including the philosopher Jacques Rancière, the political theorists Naeem Inayatullah and David Blaney, the critical scholar Jenny Edkins and the political economist Amartya Sen, in order to argue that the concept of difference within political communities as well as between them remains core to the vitality of cultures coexisting with each other.

Key words: Joseba Sarrionandia, time, utopia, nationalism, exile, political belonging, political violence.

Cyflwyniad

Ganed Joseba Sarriandia Uribe Larrea yn 1958 yn Iurreta ger tref Durango yn nhalaith Bizkaia yn ne Gwlad y Basg, gan fyw ei laslencyndod ym mlynnyddoedd olaf unbennaeth y Cadfridog Francisco Franco. Ar ôl derbyn gradd mewn Astudiaethau Basgeg yn Bilbao, bu'n athro Basgeg i oedolion, gan weithio fel newyddiadurwr rhan-amser a fu ynghlwm wrth nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys y cylchgrawn hirsefydlog *Zeruko Argia*. Yn 1977, ymunodd â'r grŵp llenyddol 'Pott' y mae llawer o'i sefydlwyr bellach yn enwau o fri llenyddol a cherddorol (Olaziregi 2007: t. 16). Tua'r adeg hon, daeth yn aelod o Euskadi Ta Askatasuna (ETA). Yn 1980, cafodd ei arestio am gymryd rhan mewn herwgipiad a chafodd ddedfryd o 27 mlynedd o garchar. Yn ystod ei garchariad, parhaodd i ysgrifennu a chyhoeddi – gan ennill tair gwobr gan gyrff cyhoeddus Gwlad y Basg – tan fis Gorffennaf 1985, pan ddihangodd o garchar Martutene yn Donostia/San Sebastián yn system sain y grŵp cerddorol Basgaidd *Imanol*. Wedi hynny, bu Sarriandia ar ffo, gan barhau i gyhoeddi yn y Fasgeg yn rheolaidd. Am 31 mlynedd, bu ei leoliad yn gryn destun trafodaeth a dyfalu ymysg y cyhoedd tan fis Tachwedd 2016 pan ryddhaodd Sefydliad Etxepare,¹ a grëwyd i 'ledaenu iaith a diwylliant Basgeg ledled y byd', ddatganiad i'r wasg yn dweud bod Sarrionandia bellach yn ddarlennydd mewn Astudiaethau Basgeg ym Mhrifysgol Hafana, Ciwba (Etxepare Euskal Institutua 2016).² Yn 2021, dychwelodd i Wlad y Basg am y tro cyntaf ers iddo ddianc o garchar Martutene.³

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, rhennir yr erthygl yn bedair rhan. Yn y rhan gyntaf, rhoddir crynodeb o stori fer 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol' yn y casgliad o gerddi *Hnuy illa nyha majah yahoo: Poemak 1985–1995* [cerddi 1985–1995].⁴ Yn yr ail ran, trafodir yr amgylchiadau ymarferol a oedd yn debygol o fod ynghlwm wrth y broses o lunio'r stori fer cyn cyhoeddi HINMY yn 1995. Yna, eir i'r afael â nifer o themâu yn y stori fer sy'n ymgordeddu yn ei gilydd; yn eu plith y canfyddiad o amser, iwtopia ac alltudiaeth yn ogystal â'r defnydd gwleidyddol ohonynt. Yn rhan o theori dderbyn (reception theory),

1 Ariennir y Sefydliad gan Lywodraeth Gwlad y Basg.

2 Patrick Carlin (awdur yr erthygl hon) sy'n berchen ar y cyfieithiadau o'r Fasgeg a'r Sbaeneg i'r Gymraeg yn yr erthygl hon.

3 Gweler Carlin 2024 am ragor o fanylion bywgraffyddol Sarrionandia a thrafodaeth (2024: 27–9) ynghylch y defnydd disgysiol o'r termau 'terfysgaeth' a 'therfysgwr'.

4 HINMY o hyn allan.

amlygir hefyd y berthynas rhwng Sarrionandia a'i ddarllenwyr, gan gyfeirio'n benodol at ragair newydd gan yr awdur yn adargaffiad 2013 y gyfrol pan gyflwynir yr elfennau uchod yn unol â'r hyn y gellid ei ddehongli'n gyffredinrwydd negyddol (negative commonality). Yn y drydedd ran, estynnir y dadleuon hyn i gwmpasu gwaith nifer o theoriwyr, gan gynnwys yr athronydd Jacques Rancière, y theoriwyr gwleidyddol Naeem Inayatullah a David Blaney, yr ysgolhaig critigol Jenny Edkins a'r economegydd gwleidyddol Amartya Sen, er mwyn holi a stilio diben llenyddiaeth a'r berthynas rhyngddi a pharhad ymddangosiadol gwahaniaeth yn y byd. Yn y casgliad, gwnaf nifer o sylwadau cyffredinol ynghylch heteroleg – astudio a dadansoddi gwahaniaeth – yng nghyd-destun llenyddiaeth ieithoedd lleiafrifedig.

Amser Presennol ac Amser Gorffennol

Yn 1988, mae dinas Belfast yn ferw o drais talu'r pwyth yn ôl. Neilltua Sarrionandia dair tudalen ar y dechrau (ar wahân i roi gwybod inni yn y trydydd paragraff fod awdur y stori fer, Ismael Larrea, ar ffo yn 'nhŷ diogel' athro ffiseg a gynghora ei bod yn well peidio â mentro allan gan fod y sefyllfa yn y ddinas yn un ddifrifol iawn) i archwilio'n fanwl fforensig gadwyn o chwe digwyddiad dirdynol o waedlyd ym mis Mawrth y flwyddyn honno, gan ymdebygu i gonsertina angau llythrennol o angladdol. Caiff pob un a fu farw yn ystod y cyfnod hwn ei enwi yn nhrefn y digwyddiadau fel pe bai'n ddarn lled newyddiadurol. Dyma isod grynoded yr awdur o'r 12 diwrnod rhwng dechrau a diwedd y gyfres o ymosodiadau.

Cawn wybod i 'heddlu Prydain' saethu tri o aelodau'r Irish Republican Army (IRA) yn Gibraltar.⁵ Wrth i eirch y tri a fu farw yn Gibraltar gyrraedd ochr draw'r ffin o Weriniaeth Iwerddon, 'dechreuodd yr anawsterau'⁶ pan fynodd heddlu Gogledd Iwerddon bryd hynny, y Royal Ulster Constabulary (RUC), fod yn rhaid tynnu baner drilliw Iwerddon oddi ar yr eirch. Ddeuddydd ar ôl i'r eirch ddychwelyd i Belfast, yn angladd y tri, cafwyd ymosodiad gan 'barafilwr Protestannaidd'⁷ gan ladd tri o bobl â grenadau a bwledi, gan gynnwys aelod o'r IRA, ac anafu 54. Dridiau ar ôl yr ymosodiad hwnnw, yn yr orymdaith angladdol i'r tri a fu farw yn yr angladd, tynnwyd dau o ringylliaid y fyddin Brydeinig o'r car yr oeddynt yn ei ddefnyddio a'u curo, a chafwyd hyd i'w cyrff noethlymun wedi'u saethu nid nepell o'r orymdaith. Tua diwedd y naratif disgrifiadol hwn, noda Sarrionandia i'r IRA gyfaddef iddi ladd menyw ifanc drwy gamgymeriad yng ngorllewin y rhanbarth, gan honni mai lladd ei brawd oedd y bwriad, a oedd yn aelod o'r Ulster Defence Regiment (UDR), sef 'mudiad parafilwrol protestannaidd'.⁸

Ar ôl rhestru'r digwyddiadau treisgar hyn mewn ffordd ymddangosiadol ddifater, bron iawn, newidia cywair y stori fer yn gyfan gwbl a thry'r adrodd yn ystryw teithio mewn

5 Yr SAS oedd yn gyfrifol am 'Operation Flavius' yn Gibraltar (English 2003: tt. 256–8).

6 'Mugan hasi ziren eragozpenak' (Sarrionandia 1995: t. 7).

7 'paramilitar protestante batek' (Sarrionandia 1995: t. 8).

8 'UDR erakunde paramilitar protestanteko partaidearen aurka egin nahi izan omen zutelako' (Sarrionandia 1995: t. 8). Un o gatrodau'r Fyddin Brydeinig a grëwyd yn 1970, yn bennaf o blith Protestaniaid Gogledd Iwerddon (English 2003: t. 174), oedd yr Ulster Defence Regiment (UDR). Fe'i diddymwyd yn 1992.

amser, a hynny at ddibenion athronyddol-wleidyddol i holi a stilio ynghylch lleoliad ac ystyr amser, y berthynas rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a'r lled awgrym y byddem yn well ein byd pe canolbwyntiem ar rinweddau iachaol y presennol. I'r perwyl hwn, cynhwysir dyfyniad o linellau cyntaf cerdd 'Burnt Norton' gan T. S. Eliot, a gyfieithwyd⁹ yn ôl dull orgraff cyfieithiad Basgeg Joanes Leizarraga o'r Testament Newydd yn 1571, ar yr un ddalen agoriadol ag enw'r stori fer, 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol':

'Acaso daude presente biac dembora futuroan, Eta dembora futuroa contenituric dembora pasatuan. Dembora guztia presente baldin badago eternalqui ...' T. S. ELIOT¹⁰	'Hwyrach bod y ddau'n bresennol yn amser y dyfodol, Ac amser y dyfodol ynghlwm wrth amser y gorffennol. Os yw pob amser yn bresennol am byth ...' T. S. ELIOT
---	--

Mae Ismael Larrea yn gorfod gadael Belfast. Fe'i hebryngir i Ballyshannon, tref glan môr yn swydd Donegal lle y mae offeiriad y plwyf yn cysylltu ag ef. Gŵyr yr offeiriad ei enw a'i fod yn hanu o Wlad y Basg. Gofynna am gymorth gan Larrea. Tybia'r offeiriad fod un o'r swmp o hen llawysgrifau yn seler ei eglwys wedi'i hysgrifennu yn y Fasgeg a dymuna gadarnhad o hyn ganddo. Estynna nifer o ddalennau melynaid y olwg ato a chaiff gadarnhad eu bod wedi'u hysgrifennu yn y Fasgeg. Rhydd dair tudalen gyntaf y llawysgrif i Larrea iddo eu darllen yn ei lety. Gyda'r nos, wrth eu darllen, dechreu a nesmwytho gan fod orgraff y Fasgeg yn perthyn i'w gyfnod ef. Merch o'r enw Argia Larralde a anwyd yn 1960 oedd yr awdur. Digwyddiadau beunyddiol a myfyrdodau cwbl ddisgwyliedig oedd cynnwys y ddwy ddalen gyntaf ond yn y drydedd roedd y digwyddiadau yn perthyn i 1998, sef deng mlynedd i'r dyfodol. Disgrifia Argia iddi gael ei herwgipio ym mis Mawrth y flwyddyn honno a thybia i'r sawl a'i herwgipiodd roi chwistrelliad o ryw fath iddi a barodd iddi golli ymwybyddiaeth a bod 'popeth a ddigwyddodd wedyn yn gwbl ddiarth gen i, fel pe bawn i wedi cael fy aileni ac wedi glanio o'r niwl i fyd arall' (Sarrionandia 1995: t. 13).¹¹

Y diwrnod canlynol, aeth y ddau i Station Island, ynys fach mewn llyn o'r enw Lough Derg nid nepell o'r ffin â Gogledd Iwerddon. Esbonia Larrea gynnwys y dalennau, gan egluro bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pryd y cafodd atgofion Argia eu llunio ond eu bod yn rhai cwbl gyfoes. Gwada'r offeiriad yr esboniad hwn gan honni o hyd mai llawysgrif o'r ail ganrif ar bymtheg yw'r testun. Pan ddychwelodd y ddau i Ballyshannon, gwnaeth yr offeiriad lungopïau o weddill y llawysgrif a'u rhoi i Larrea. Yng nghwmni'r offeiriad,

9 Fe'i cyfieithwyd yn wreiddiol yn 1973 gan y bardd a'r cyfieithydd Gabriel Aresti a'i chyhoeddi yn 1983 ar ôl ei farwolaeth yn 1975 mewn cyfrol a gafodd ei chydgyfieithu a'i chydolygu gan Sarrionandia ac eraill (Aresti et al. 1983).

10 Sarrionandia 1995: t. 5.

11 'Harrezkerokoa zeharo desberdina iruditu zitzaidan, behelainotatik beste mundu batera bersortu izan banintz bezala'.

ailgydiodd yn y darllen. Pan ddihunodd Argia Larralde, canfu ei bod mewn tref nad oedd yn ei hadnabod; roedd y Fasgeg a siaradai'r trigolion lleol yn anodd ei deall a'r flwyddyn oedd 1647. Gan fod y bobl leol yn amheus ohoni – ac yntau'n gyfnod y Chwilys – gorfu iddi ffoi nes cael ei derbyn yn nhŷ cyfreithiwr a gwleidydd lleol, Arnaut Oihenart. Yng nghanol yr adrodd, cyffroa Larrea drwyddo gan roi gwybod i'r offeiriad mai un o awduron enwocaf y Fasgeg oedd Oihenart.

Mae Argia ac Oihenart yn dechrau treulio mwy fyth o amser gyda'i gilydd a phenderfyna Argia esbonio wrth Oihenart bopeth sydd wedi digwydd iddi, gan gynnig manylion hefyd am ddigwyddiadau'r dyfodol, er enghraifft, ymgais ETA i ladd Brenin Sbaen yn 1998.¹² Wedi iddynt gychwyn carwriaeth fer, llunia Oihenart gerdd ar ei chyfer¹³ ac yn y ffordd hon, cynigia Sarrionandia gyd-destun ffuglennol i gerdd hanesyddol go-iawn Oihenart:

Gauic egunic Estinat hounic Hirequi ezpaniz, Arguia, Hirequi ezpaniz Itsu hutsa niz Ceren baihiz ene arguia. ¹⁴	Nid da gennyf Yr un diwrnod na'r un noson Oni fyddwyf gyda thi, Argia, Oni fyddwyf gyda thi Cwbl ddall ydwyf Canys tydi ydyw fy ngolau.
---	--

Daw sïon bod dilynwyr y Chwilys yn dod yn nes a ffy Argia unwaith eto, y tro hwn i Ddylun lle y mae'n sefyll gyda theulu o Hiwgenotiaid a oedd hwythau wedi gorfod ffoi o'r un rhanbarth am resymau crefyddol ddeng mlynedd ynghynt. Fel o'r blaen, ar ôl i'r teulu estyn croeso iddi, ni allant wneud na phen na chynffon o'i hesboniadau pan ofynnant iddi am ei bro enedigol. Yn debyg i'r teulu, teimla Argia hiraeth ingol ond yn ei hachos hi, profa ddau fath o fôr, y môr go iawn a'r môr o amser nad oes modd ei aildramwyo. Â testun Argia yn ei flaen i ddisgrifio cyfnod lluoedd Cromwell yn Iwerddon cyn datgan 'dyma wlad wedi'i threchu'.¹⁵ Symudodd i orllewin y wlad, gan fyw mewn tlodi affwysol. Dechreuodd weithio mewn syrcas yn ddaroganwraig ond gan na allai ateb y cwestiynau symlaf yr oedd gan y gynulleidfa, megis 'sut dywydd fydd hi fory?', byr fu ei harhosiad yno. Daw testun Argia i ben gyda'r wybodaeth ei bod wedi cyrraedd tref Ballyshannon.

Rydym wedi cyrraedd y man y tybiwn y dymuna Sarrionandia gyrraedd ato. Try Larrea at yr offeiriad a gofyn iddo beth yw ystyr y cyfan:

'Wyt ti'n gyfarwydd â myfyrdodau Sant Awstin ynghylch y gorffennol a'r presennol?'

¹² Ceisiodd ETA ladd Brenin Sbaen yn ystod haf 1995. Cyhoeddwyd *Hnuy illa nyha majah yahoo (Poemak 1985–1995)* ym mis Rhagfyr 1995.

¹³ Ystyr yr enw priod 'Argia' yw 'golau'.

¹⁴ Sarrionandia 1995: t. 16.

¹⁵ 'Hau herri derrotatua da' (Sarrionandia 1995: t. 19).

‘Nac ydw.’

‘Ysgrifennodd Sant Awstin yn y Cyffesion ei bod yn amhriodol gwahaniaethu rhwng tri amser fel yr arferwn ei wneud: y gorffennol, y presennol a’r dyfodol. Byddai’n fwy priodol ystyried tri amser arall: presennol pethau’r gorffennol, presennol pethau’r presennol a phresennol pethau’r dyfodol. Yn ein cof o leiaf, hyd yn oed os na thrigant yn unman arall, ceir tri amser: cof am yr hyn a fu, bywyd y presennol a gobaith at y dyfodol ...’ (Sarrionandia 1995: t. 20)¹⁶

Mae’n bryd i Ismael adael Ballyshannon a gwneir trefniadau iddo gael lle ar gwch rhwyfo sy’n aros amdano yn y cei i’w gludo i gwch mwy ei faint lle y mae’r morwyr yn siarad Gwyddeleg â’i gilydd, gan feddwl wrtho’i hun nad yw’n deall yr un gair. Mae’r testun yn gorffen fel a ganlyn: ‘Yna cofiais eiriau Beda Ddoeth: dywedodd fod y Gwyddelod yn byw *in extremis terrae finibus*, sef pen pellaf y ddaear. Ond pe bai’r byd yn dod i ben yno, yn y wlad dlawd a adawyd ar ein hôlau, yna i ble’r oeddem yn mynd ...’ (Sarrionandia 1995: t. 21).¹⁷

Amser, alltudiaeth ac iwtopia

Pan gyhoeddwyd ‘Amser Presennol ac Amser Gorffennol’ yn HINMY yn 1995, nid oedd y rhynggrwyd yn bodoli yng Nghiwba¹⁸ lle yr oedd Sarrionandia bryd hynny yn byw, felly mae’n debygol y byddai’n rhaid wrth gryn ymchwil er mwyn dod o hyd i gronoleg y digwyddiadau treisgar yn 1988 a ddisgrifir ym Melfast ar ddechrau’r stori fer.¹⁹ Er iddo fod yn awdur a wna gryn ddefnydd o ryngdestunoldeb a chwareusrwydd lle ac amser yn ei ysgrifennu er mwyn holi a stilio natur realiti (Carlin 2024, t. 39; Rodriguez 2014, tt. 201–3), nid felly yn y rhan hon o’r stori gan yr ymddengys bod ôl cryn ymdrech i wirio’r gronoleg.²⁰

Craidd meddylfryd, gwaith creadigol a thraethodau cyhoeddedig Sarrionandia yw’r prosesau ynghlwm wrth drawsnewid a gwireddu personol a thorfol (Carlin 2024). Fel y nodwyd eisoes, mae cysyniad amser yn ymgorddeddu drwy’r testun. Hyd yn oed ar lefel ieithyddol, wrth ddyfynnu testun Arnaud Oihenart a’r cyfieithiad Basgeg o linellau agoriadol

16 –Iraganari eta orainari buruzko San Agustinen iritziak ezagutzen dituzu?

–Ez.

–San Agustinek Aitorkizunetan izkiriatu zuen desegokia dela hiru aldi bereiztea bereizi ohi dugun bezala: iragana, oraina eta etorkizuna. Egokiagoa litzatekeela beste hiru al diok haintzat hartzea: iragandako gauzen oraina, oraingoan oraina eta etorkizunekoan oraina. Gure gogoan behintzat, beste inon ez balira ere, badira hiru aldiok: iragandakoen oroimena, orainaren biziera eta gerokoaren esperantza ...’

17 ‘Beda beneragarriaren hitzak gogoratu nituen orduan: irlandarrak *in extremis terrae finibus*, hau da, hurraren bukaerako ertzean bizi direla esaten zuen. Baina mundua han amaitzen bazen, atzean utzitako lur bazter gaitzean, orduan norantz gindoazen ba gu ...’

18 Cysylltwyd â’r rhynggrwyd yng Nghiwba yn gyntaf ym mis Medi 1996 (Press 2021: 31).

19 Cyfeiria’r beirniad llenyddol Joseba Gabilondo (2012: 56) ato’n ‘awdur llyfrgell’ [‘liburutegiko idazle da’].

20 Serch hynny, dichon mai ynys Arranmore (*Árainn Mhór*) ger Ballyshannon sydd ganddo mewn golwg pan gyfeiria at y morwyr o ‘ynysoedd Aran’ (rhyw 180 milltir i’r de).

cerdd ‘Burnt Norton’ gan T. S. Eliot yn ôl dull orgraff Joanes Leizarraga o’r unfed ganrif ar bymtheg, ymddengys bod yr holi a stilio yn ei gylch yn parhau. Cyn iddo gael ei garcharu, bu Sarrionandia yn gyd-gyfieithydd detholiad o waith Eliot o’r enw *T. S. Eliot euskaraz* [T. S. Eliot yn y Fasgeg] yn 1983 ar y cyd â Gabriel Aresti. Yn ei gyfrol *Historia de la literatura vasca* [Hanes Llenyddiaeth Fasgeg], mae Iñaki Aldekoa yn trafod yr her a wynebair Leizarraga wrth bennu’r orgraff gan mai ei gyfieithiad o’r Testament Newydd oedd y llyfr rhyddiaith cyntaf i’w gyhoeddi yn y Fasgeg. Yn ôl Aldekoa, wrth i ddylanwad Protestaniaeth leihau gyda threigl amser yn nhiriogaeth y Fasgeg, collwyd y cyfle i bennu patrwm gogyfer â’r Fasgeg lenyddol a nodweddai hynt llenyddiaethau gorllewinol eraill (2004: 43–4). Nid yw y tu hwnt i reswm i gredu bod Sarrionandia yntau’n deall arwyddocâd hanesyddol cyhoeddiad – ac orgraff – Leizarraga, gan iddo fynd ati’n unswydd i anghyfarwyddo’r darlennydd cyfoes drwy arfer orgraff yr unfed ganrif ar bymtheg i gyfieithu ‘Burnt Norton’ sydd hithau’n myfyrio uwchben y berthynas rhwng amser a threfn yn y byd.

Anterth y stori fer, yn bendifaddau, yw’r sgwrs rhwng Ismael a’r offeriad sy’n cyplysu’r llawysgrif sy’n adrodd hanes Argia â phennod yn unfed llyfr ar ddeg *Cyffesion Sant Awstin* ynghylch y berthynas rhwng y presennol, y gorffennol a’r dyfodol. Gan ganu’n iach wedyn i Ismael a chan gyfeirio at yr addasu ar eiriau Awstin, dywedodd yr offeiriad wrtho: ‘tybed a fydd ein gwledydd ryw fymryn yn fwy rhydd pan welwn ein gilydd y tro nesaf’.²¹ Dyma felly gyd-destunoli geiriau Awstin yn rhan o ymgiprys tiriogaethol modernedd. I awdur sydd yn problemu natur a grym amser a’r berthynas rhyngddo a bywyd dynol, nid yw hwyrach yn gwbl annisgwyl fod Sarrionandia yn cyfeirio at Awstin, ond serch hynny nid yw’n ymddangos llawer yn ei waith ar y cyfan. At ddibenion gweddu i arfwisg ddisgyrsiol offeiriad Gwyddelig ar ddechrau’r 1990au, hwyrach ei fod wedi dewis cynnwys y cyfeiriad ato, yn un peth gan fod rhywfaint o anghyfarwyddo athronyddol neu ‘darfu’ amserol ynghlwm wrth lyfr XI y *Cyffesion*. Gellid cynnig darlenniad arall, serch hynny, ynghylch pam nad yw Awstin yn ymddangos yn fynych yn ei waith diweddarach, yn ogystal â’r rheswm dros y gwyro tuag at ddylanwadau theoretig ac athronyddol eraill.

Mewn pennod yn y gyfrol *Augustine Our Contemporary: Examining the Self in Past and Present*, ystyria’r ysgolhaig ar lenyddiaeth gymharol Françoise Meltzer oblygiadau ‘trem’ y Rhamantwyr ar adfeilion, gan gyfeirio at Lyfr XI y *Cyffesion*, ‘[f]or ruins clearly engage nothing if not the concept of time’. I’r rhamantwr, parai adfeilion bruddglwyf a ‘the loss of a permeating absolute’ (2018: 370), eithr chwilio a wna Awstin am atebion gan Dduw gan mai ganddo yn unig y perthyn absoliwtiaeth, canys ‘tydi, Greawdwr tragwyddol pob amser, wyt cyn pob amser, ac nid oes yr un amser yn gyd-dragwyddol â thi, nac unrhyw greadur, hyd yn oed os oes creadur “uwchlaw amser”’ (Pennod XXX).²² Er bod Awstin yn problemu amser, erys ei ffydd mewn Duw anwahanedig yn unplyg gadarn; ‘felly y gwnaethost nef a daear yn eu dechreuadau heb yr un ymraniad yn dy weithredoedd’: i’w gymharu â dyn y

21 ‘Ea hurrengoz ikusten garenean gure herriak pixka bat libreagoak diren’ (Sarrionandia 1995: 20).

22 Cyfieithiad yr awdur. Er bod cyfieithiad Cymraeg o *Gyffesion Awstin* (Thomas 1973), nid yw’n cynnwys llyfr XI–XIII.

‘mae ei deimladau yn amrywiol a’i synhwyrau yn rhanedig’ (Pennod XXX1).

Gallwn fwrw amcan fod yr elfen apoffatig (bod modd adnabod Duw ond ar sail yr hyn nad ydyw) yn apelio at Sarrionandia, fel y gwelwn yn nes ymlaen yn y drydedd ran wrth drafod y deisyfu am wleidyddiaeth gwahaniaeth drwy negyddu. Wrth drin estheteg adfeilion, cyfeiria Meltzer at bryder yr athronydd Walter Benjamin ‘that the idea of the Beautiful in the ruin suggests a totality both dangerous and hypocritical’ ac mai’r hiraeth penodol hwn am undod sy’n peri i Benjamin ddadlau dros ‘a resistance to symbol (the romantic move par excellence) and a move to allegory’. Golyga hyn fod yn rhaid ystyried adfeilion yn nhermau treigl cyfnewidiol hanes yn hytrach na phau’r symbol sy’n creu cyfanrwydd drwy drawsensi (metonymy), gan gogio cynnig ‘a promise of eternal life and thus professes to surpass time and history’ (2018: 383). Yn ôl Melzer, ‘the ruins – both physical and mental – left behind by the twentieth century in the West have left a legacy that disallows the notion of unity as an innocent one’, gan ddadlau bod ‘ruin-gazing’ y rhamantwyr yn ‘perspective from which we have yet to escape and that Benjamin warned about’ (2018: 384).

Gyda Benjamin, tybiwn fod Sarrionandia ar dir mwy cyfforddus. Yn *¿Somos como moros en la niebla?* [A ydym megis Mwriaid yn y Niwl?], traethawd swmpus o fwy na 900 tudalen a enillodd Wobr Traethawd Basgeg Llywodraeth Gwlad y Basg yn 2011,²³ cyfeiria Sarrionandia at Walter Benjamin, Hannah Arendt a Karl Mannheim ymhlith eraill at ddibenion ailrymuso gwaddol iwtopia yn ‘weledigaeth o fywyd cymdeithasol sy’n feirniadol yn ei hanfod parthed yr hyn sy’n bodoli go iawn’ (2012: 817).²⁴

Mae’r gorffennol yn aneglur ac yn amwys, ac erys y dyfodol i’w ysgrifennu, felly mae Benjamin yn bwriadu llenwi’r presennol â hanes a’r dyfodol, hynny yw, ag iwtopia. Yn sgil gwybodaeth am hanes bydd rhywun yn dysgu nad yw sefyllfaoedd a ddioddefir yn eithriad nac yn anomaledd ond dyma yn hytrach y rheol ... nid yn unig y mae’r Basgiaid neu’r Berberiaid yn brwydro er mwyn i’r cenedlaethau a ddêl fyw ychydig yn fwy cyfforddus. Mae’n rhaid ar ben hynny ymyrryd ym mharhad hanes er mwyn urddasoli bodolaeth cenedlaethau’r gorffennol (2012: 796).²⁵

Cyhoeddwyd adargraffiad o HINMY yn 2013 â rhagair chwe thudalen nad oedd yn rhan o fersiwn 1995. Ynddo, sonia Sarrionandia fod deongliadau rif y gwllith wedi’u gwneud

23 Gweler Carlin (2024: t. 43) am y gwahaniaethau rhwng y fersiwn Fasgeg a gyhoeddwyd yn 2010 a’r fersiwn Sbaeneg estynedig a gyhoeddwyd yn 2012. Ar gyfer y gwrthdaro sefydliadol a gwleidyddol yn dilyn dyfarnu’r Wobr, gweler

<https://elpais.com/cultura/2011/10/03/actualidad/1317592801_850215.html>

24 ‘una visión de la vida social radicalmente crítica con lo realmente existente’.

25 ‘El pasado es brumoso y ambiguo, y el futuro no está escrito, así que Benjamin propone llenar el presente de historia y de porvenir, es decir, de utopía. Gracias al conocimiento de la historia se aprende que las situaciones que se padecen no constituyen una excepción o una anomalía, sino la regla ... los vascos o los berberes no luchan solo para que las generaciones venideras vivan un poco más cómodamente. Hay que interrumpir la continuidad de la historia también para dignificar la existencia de las generaciones pretéritas.’

ynghylch y cerddi a bod sawl un bellach yn destun caneuon a llwyfaniadau cerdd a dawns. Cyfeiria'n anuniongyrchol at theori ddarllen fel a ganlyn, '[g]an yr ystyriaf y darlennydd yn gymaint o ysgrifennwr â'r awdur, ni fyddaf yn dechrau trwy hawlio awdurdod yr awdur i egluro'r union fwriad y tu ôl i greu'r testunau yn y llyfr'. Serch hynny, â rhagddo'n syth i ymdrin â sawl achos o gamddehongli, yn ei dyb ef, yn sgil 'rhaid darlenniadau arbennig o ddiffygiol' (2013: 6).²⁶ Er enghraifft, drwy gyfeirio at eiriau enwog 'For Whom The Bell Tolls' ym myfyrdod 17 *Devotions Upon Emergent Occasions* gan John Donne ynghylch goblygiadau perthyn i'r ddynoliaeth gyfan, chwith ganddo yw gorfod esbonio cerdd yn y gyfrol sy'n sôn am 'ein meirw' ar ôl i'r gerdd 'gael ei phardduo ar y lefelau llenyddol a gwleidyddol uchaf un' oherwydd y tyb, fe ymddengys, ei bod yn mawrygu trais gwleidyddol (2013: 7).²⁷ Cadarnhau a wna nad yw'r gyfrol yn mawrygu diwylliant yr arwr neu'r sefyllfa gyfredol sydd ohoni, 'ond yn hytrach i'r gwrthwyneb yn llwyr: beirniadu ideolegau crefyddol neu wleidyddol a grym economaidd neu filwrol o safbwynt y ddynolryw ddarostyngedig a diymgeledd' (2013: 6).²⁸ Nid diben y gyfrol, felly, oedd llwyddo i 'gael tair llinell yn ffuglen hanes llenyddiaeth Fasgeg, ond i esgyn rywfaint dros weiren bigog y ffin rhwng yr iaith a ddefnyddiwn a phrinder realiti' (2013: 9–10).

Teg dweud, serch hynny, i'r rhagair ymdrin yn bennaf ag effaith uniongyrchol alltudiaeth ar yr awdur yn ieithyddol ac yn bersonol, gan ei gwneud â thema amser, amwysedd ac ansefydlogrwydd hunaniaeth a pherthyn cenedlaethol yn ogystal â theori ddarllen ei hun. 'Cwch bach o bapur' yw'r gyfrol a gychwynnodd ar daith, wedi'i egino gan awydd yr alltud i 'droi ei fonolog yn sgwrs rhwng dau, gan fynd â'i ysgrifau at bobl gyfiaith bell ac anhysbys' (2013: 6).²⁹ Mewn alltudiaeth, try'r Fasgeg yn famwlad y mae nodweddiad ei gwneuthuriad hithau'n ansicr, a daw'r rhyngdestunoldeb sydd mor nodweddiadol o'r awdur i'r golwg wrth drafod rhyddfrefiniau sofran y drefn Westffalaidd:

Er nad oedd modd cyflawni'r un dim yn y Fasgeg ond yn fy mhen, datblygodd yr iaith gudd honno'n lle imi ysgrifennu. Yn hytrach na lle, gallesid dweud 'mamwlad', pe na bai'n beth amheus i bobl heb famwlad arfer y gair hwnnw. Fel arall, fe'i hystyrir yn beth tra chyffredin a chain hyd yn oed, yn ôl y defnydd ohono gan Rudyard Kipling neu Fernando Pessoa, er enghraifft. Daeth fy iaith dan gêl wedyn yn 'lle' i feddwl ac

26 'Irakurlea idazlea bezain autoretzat dudanez, ez naiz autore autoritatea erreklamatz liburuko testuen sorrerako esa nahia zehatza azaltzen hasiko. Baina, irakurketa bereziki makur batzuk egin direnez gero, horietatik hiru behintzat argitu nahi ditut ...'

27 'Kriminalizazio literario eta politikoaren goien graduak lortu zituen'. Gweler Portela (2016) am ymdriniaeth â'r ffyrdd y cynrychiolir trais gwleidyddol yng Ngwlad y Basg mewn llenyddiaeth a byd y sinema, ac Egaña Etxeberria (2024) sy'n problemu'r cymhellion gwleidyddol y tu hwnt i drais gwleidyddol iswladwriaethol a gwladwriaethol fel ei gilydd a'r berthynas anghyfartal wrth ymdrin â'r rhain yn ysgolheigaidd ac yn ddisgyrsiol.

28 'Baizik eta justu alderantzizkoa: ideologia erlijioso edo politiko eta botere ekonomiko edo militarren kritika gizajende menderatu eta ezinduaren ikuspegitik'.

29 'Paperezko txalupatxo horrek bidaia egin zuen, deserriatuak bere bakarriketa elkarriketa bihurtzeko duen gogoia rekin, izkribuak mintzairakide urrun eta ezezagunei eramanez'.

ysgrifennu am fywyd alltudiaeth, ond heb fod yn lle cyflawn a diogel, ond yn hytrach yn un yr oedd yn rhaid ei lunio a'i ddyfeisio, bron iawn.³⁰

Daw natur a lleoliad alltudiaeth, yn ogystal â'r ymlyniadau a'r rhwymedigaethau a deimlwn wrth gymunedau gwleidyddol penodol, o dan y chwyddwydr ganddo, a defnyddir posibiliadau amseryddol Awstin yn union yr un ffordd ag yng nghyfrol *¿Somos como moros en la niebla?* i holi a stilio ynghylch cwlwm alltudiaeth ar ei newydd wedd, cwlwm sy'n rhwymo'r presennol wrth y gorffennol a'r dyfodol:

Mae pob un ohonom yn byw mewn rhyw fath o alltudiaeth. Ac, os ydym erioed wedi teimlo yr un mor gartrefol dramor ag yn ein mamwlad dybiedig, byddwn yn aml yn teimlo'n ddieithriad yn unrhyw le ... Bydd yn rhaid llunio mapiau newydd. Bydd yn rhaid inni adrodd am ddigwyddiadau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Gadewch inni geisio egluro ein bodolaeth, yn rhydd o'r gorchmynion oddi fry, â chadernid yr hyn sy'n bodoli go-iawn. Nid yw'n wir, fel rydym ninnau weithiau wedi'i feddwl a'i ysgrifennu, fod popeth eisoes wedi'i adrodd. Erys popeth heb ei adrodd. (Sarrionandia 2013: 8–9)³¹

Er nad enwir iwtopia fel y cyfryw yn HINMY, erbyn cyhoeddi *¿Somos como moros en la niebla?* daethai'n gwlwm effeithiol ganddo i weu ynghyd amser, alltudiaeth, hunaniaeth, cof am y gorffennol a gobaith at fory, gan adlewyrchu'n gryf y ddelwedd gofiadwy gan Benjamin, '[a]s flowers turn toward the sun, by dint of a secret heliotropism the past strives to turn toward that sun which is rising in the sky of history' (2007: 255). Gwneir hyn at ddibenion ymorol am adnoddau disgyrsiol er mwyn i grwpiau tra amrywiol – cymunedau gwleidyddol iswladwriaethol yn eu plith³² – a wastrodir yn sgil hualau hanes ymgynghreirio â'i gilydd. Gan gydgordio â sylw Sarrionandia uchod bod 'dyheadau'r gorthrymedig yn cael eu gwarthnodi'n "iwtopaidd" pan fo'r rhain yn dymuno newid gwirioneddau dynol penodol', deil yr hanesydd syniadaethol Enzo Traverso fod iwtopias y ganrif ddiwethaf bellach wedi

30 'Neure baitan besterik egin ezin arren euskaraz, hizkera klan destino horixe bihurtu zitzaidan idazteko leku. Lekuren ordeiz 'aberri' esan zitekeen, susmagarria ez balitz aberririk ez duen jendeak hitz hori erabiltzea, bestela oso normaltzat eta are dotoretzat hartzen delako, Rudyard Kiplingek edo Fernando Pessoa erabilia, esate baterako. Herbesteko bizieraz pentsatzeko eta idazteko 'leku' bihurtu zitzaidan orduan neure hizkuntza gordea, baina ez leku erabatekoa eta segurua, baizik eta osatu eta ia asmatu beharrekoa'.

31 'Denak bizi gara eraren batean herbestean. Eta, herritik kanpora inoiz geure balizko aberri esaktuan bezain etxeko sentitu bagara mundu guztian, sarritan sumatzen gara arrotz edonon ... Mapa berriak egin beharko dira. Denbora pasatuko, denbora presenteko eta denbora futuroko gertaerak kontatu beharko ditugu. Ea asmatzen dugun, agindutako diktatuetatik landa, benetakoaren konsistentziarekin azaltzen geure existentzia. Ez da egia dena kontatuta dagoela, geuk ere pentsatu eta idatzi dugunez batzuetan. Kontatzeke dago dena'.

32 Ond gweler Carlin (2024: tt. 67–8) am barodrwydd Sarrionandia i ystyried y posibilrwydd o gysyniadu cymuned wleidyddol Gwlad y Basg yn y dyfodol y tu hwnt i baramedrau Westfalaidd, neu'r hyn a elwir gan Naeem Inayatullah a David Blaney yn 'the reign of straight lines' (2004: t. 168).

darfod ‘leaving a present charged with memory but unable to project itself into the future’ (2016: 7).

Estheteg, heteroleg a Sarrionandia

Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o farddoniaeth Sarrionandia, *Izuen gordelekuetan barrena* [Yng Nghilfachau Ofn], yn 1981 pan oedd yng ngharchar Carabanchel ym Madrid. Yn y rhagair, wrth drafod ei gerddi, fe’n gwahoddir i ryw synhywro bod perthynas rhwng estheteg llenyddiaeth, ei darllenwyr, rhyngdestunoldeb ac ymrwymiad gwleidyddol:

Gwreiddir pob cerdd ym marddoniaeth y gorffennol ac mae fy marddoniaeth innau’n gyfuriog o gyfeiriadau llenyddol ... dywedir yn aml fod y math hwn o lenyddiaeth yn anodd ei deall, a pham yr ydym yn ei hysgrifennu ac i bwy ... [g]allaf ddweud: i’r rheini sydd wedi gwisgo ceirios yn glustdlysau, i gapteiniaid llongau cydnerth, i’r rheini a gystwyir gan gariad neu feiolinau gyda’r nos ac i’r fflwytydd sy’n darlunio paentiad newydd. Gallaf ddweud: i’r rheini rwyf wedi eu teimlo’n agos ataf mewn eiliadau peryglus ond nad ydynt yn credu gormod yn y fwyell a’r neidr,³³ i’r rheini sydd wedi mynd i ffwrdd heb adael yr un dim o’u holau ... i’r bwgan brain sy’n cyfarch y wawr dan chwerthin, i breswylwyr carchardai sydd wedi colli gobaith, i ymladdwyr pob achos a gollwyd. (Sarrionandia 1981).³⁴

Amlyga’r uchod yr hyn a ddisgrifia’r cymharydd llenyddol Luisa Elena Delgado – un o’r garfan brin o academyddion ym maes llenyddiaethau Sbaenaidd i gyfeirio at waith Sarrionandia – yn enghraifft o’r ffaith nad yw ‘lenyddiaeth byth yn lenyddiaeth yn unig’ gan fod y ‘gwacter paralacs yng ngwaith Sarrionandia yn hynodi gwrthdaro tra difrifol sy’n effeithio nid yn unig ar gysyniad gwleidyddol a symbolaidd Sbaen, ond hefyd y posibilrwydd – neu beidio – o gymunedau gwahanol a safbwyntiau ideolegol yn cydfodoli â’i gilydd’ (2014: 187).³⁵ I’r un perwyl, mewn cyfweiliad rhwng yr athronwyr Gabriel Rockhill

33 Cyfeiriad at yr arwyddair a’r symbol, ‘Bietan Jarrai’ [ar y ddau ffrynt] a ddefnyddiwyd gan ETA i ddisgrifio strategaeth ddeuol trais gwleidyddol a gwleidyddiaeth sefydliadol. Mae’r symbol yn cynnwys, ‘a snake, representing politics, wrapped around an axe, representing violence’ (Whitfield 2014: t. 2). Gweler hefyd Carlin 2024 (pennod 2) am asesiad cyfredol Sarrionandia o drais gwleidyddol yng Ngwlad y Basg.

34 ‘Poema orok aurreko poemagintzan du erroa, eta nirea ere erreferentzia literarioz beterik dago ... maiz entzuten da literatura hau ez dela entelegatzen, zaila dela, eta ea zertarako, ea norentzat idazten dugun ... [e]san dezaket: noizbait gerizak belarrietan eskegi dituztenentzat, itsasontzi zurkaiztuetao kapitainentzat, amodioak edo gaubiolinek erotzen dituztenentzat, eta margo berri bat asmatu duen xirulariarintzat. Esan dezaket: aizkoraz eta sugeaz sobera sinetsi gabe ere arriskuan hurbil somatu ditudanentzat, aztarnarik utzi gabe aldendu direnentzat ... egunsentiari diosala irriz egiten dion xorimaloarentzat, presondegietao biztanle etsituentzat, eta kausa galdu oren gerlarientzat’.

35 ‘Dicha postura no se consideraría aceptable en el caso de Sarrionandia, que sin duda podría servir de ejemplo de que la literatura nunca es solo literatura ... el vacío de paralaje que representa la obra de Sarrionandia es representativo de un conflicto sumamente grave, que afecta no solo a la concepción política y simbólica de España, sino también a la (im)posibilidad de convivencia entre diferentes

a Jacques Rancière, trafodir ymrwymiad gwleidyddol yr artist yng nghyd-destun y ddadl ‘a yw celfyddyd artist yn “ymrwymedig”’? Mynn Rancière nad categori o gelfyddyd yw ymrwymiad ond nid yw hyn yn gyfystyr â dod i’r casgliad bod celfyddyd yn anwleidyddol. Yn hytrach, deil fod estheteg yn meddu ar ei gwleidyddiaeth ei hun. Gan gyfeirio at fabwysiadu prosiect gwleidyddol Bertolt Brecht gan ‘European intellectual elites in the 1950s’, pwysleisia nad oedd ‘the encounter between this particular form of politics and its supposed audience (workers conscious of the capitalist system)’ erioed wedi digwydd. Gan hynny:

There is no criterion for establishing an appropriate correlation between the politics of aesthetics and the aesthetics of politics. This has nothing to do with the claim made by some people that art and politics should not be mixed. They intermix in any case; politics has its aesthetics, and aesthetics has its politics. But there is no formula for an appropriate correlation. (Rancière 2013: 57–8)

Cyflwynir yma gysyniad ‘heteroleg’ Rancière yng nghyd-destun gwaith Sarrionandia. Yn yr erthygl hon mae iddo ddwy ystyr, ond trafodwn y gyntaf o’r rhain fel y’i gwêl gan Rancière, sef bod gwleidyddiaeth esthetig [aesthetic politics] bob amser yn diffinio ei hun drwy adlunio’r ffordd yr ydym yn cysyniadu’r hyn sy’n synhwyrol, yn dderbyniol ac yn weladwy, fel a ganlyn: ‘the notion of “heterology” refers to the way in which the meaningful fabric of the sensible is disturbed’. I Rancière, ni all celfyddyd wleidyddol weithio ar ffurf ‘a meaningful spectacle’ a fyddai’n arwain at ymwybyddiaeth ehangach o gyflwr y byd a’i bethau gan fod tensiwn rhwng ‘the readability of the message that threatens to destroy the sensible form of art and the radical uncanniness that threatens to destroy all political meaning’ (Rancière 2013: 59). Er nad oes modd gwastrodi na rheoli’r tensiwn hwn, bydd heterolegau’n arwain at ymddatod ffabrig yr hyn sy’n synhwyrol a’r berthynas dderbyniedig rhwng ystyron a’r hyn sy’n weladwy.

Gwelwn enghraifft o sut y mae ‘heteroleg’ o’r fath yn cyd-fynd â bydolwg Sarrionandia parthed yr awydd i adlunio’r hyn a welir – ac i fod yn fanylach, yr hyn y perir iddo fod yn weladwy – a’r hyn nas gwelir drwy ddychwelyd at ragair HINMY. Gwna hyn drwy gyfeirio at y nofel *Through the Looking-Glass* gan Lewis Carroll, gan fraenaru ei ddadansoddiad drwy gyffelybu’r broses o ysgrifennu cynnwys y gyfrol tra ei fod mewn alltudiaeth â’r hyn a eilw’n ‘theori negyddol’, gan bentyrru negyddion rif y gwlith wrth ddatgan iddo ‘anghofio sut beth yw barddoniaeth wrth ddrafftio’r cerddi hynny ... gan nad oedd gen i’r un rethreg na’r un gallu i fydryddu nac odli’. Y cwbl oedd ganddo wrth fynd ati i ysgrifennu’r testunau oedd y ‘theori negyddol hon, sef rhoi enwau i bethau nad ydynt [yn bodoli] a cheisio adennill

comunidades y localizaciones ideológicas’. Gweler hefyd Miguélez-Carballeira 2012 yn y cyd-destun hwn.

fy realiti, sydd yntau'n realiti a all ddod i ran unrhyw un arall.³⁶ Tafola Sarrionandia rym diymwad y sawl sy'n llunio enwau a'r sawl sy'n bodoli ond yr ymddengys na phennwyd enw arnynt:

Barnai Gwybedyn Lewis Carroll y deuai atebion pe baem yn galw pob un wrth ei enw. Nid felly oedd argraff Alys gan na chafodd yr un ateb er iddi alw ar bethau dro ar ôl tro. Oni allent ateb, beth oedd diben enwau? Tybiai Alys hwyrach fod enwau'n bwysig i'r sawl sy'n galw. 'Wn i ddim!', meddai'r Gwybedyn maint iâr. 'Bid a fo am hynny, mae'n rhaid imi eich rhybuddio nad oes enw ar y rheini yn y goedwig drwchus acw.' (2013: 9).³⁷

Dychwelaf at ergyd 'theori negyddol' Sarrionandia yn y man, ond o gymhwyso'r uchod i farn Rancière, sef '[p]olitics revolves around what is seen and what can be said about it, around who has the ability to see and the talent to speak' (2013: 8), dadleuaf fod y broses o darfu ar rwydweithiau'r 'synhwyrol' a'r amodau sy'n rheoli'r gallu a'r grym i weld yn ogystal â bod yn weladwy yn wleidyddol wrth graidd holl ysgrifennu creadigol Sarrionandia. Ar fater tafoli rhwng y gwyb a'r gwachul, fe'n rhybuddir gan Rancière y dylid osgoi gofyn y cwestiwn hwn wrth lunio meini prawf gwerthuso gweithiau celfyddyd gan fod 'the politics of works of art plays itself out to a larger extent – in a global and diffuse manner – in the reconfiguration of worlds of experience' ac mai mater i brosesau gwleidyddol eu hunain yw 'appropriate, for their own proper use, the modes of presentation or the means of establishing explanatory sequences produced by artistic practices rather than the other way around' (2013: 60).

Mewn erthygl a ysgrifennodd y theorïwr critigol Jenny Edkins yn y cyfnodolyn *Security Dialogue* ynghylch ffyrdd newydd o ysgrifennu academiaidd ym maes cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys y defnydd o lenyddiaeth i drafod cymhlethdod a gwahaniaeth yn y byd,³⁸ ceir adlais o'r drafodaeth uchod wrth i Edkins ddadlau o blaid ffyrdd o ysgrifennu 'that can have a radical political impact' ac sy'n herio 'forms of temporality that define our contemporary lives and the notion that we are nothing more than separate sovereign

36 'Ahaztua nuen zer den poesia poema horiek zirriborratzean, eta zer den hiz laua, ez bainuen ez erretorikarik, ez metrikarik, ez errimarik. Ironiaz baizik ezin nuen neurtitzik egin eta ez nekien ondo idaztea zer den. Teoria negatibo hau besterik ez nuen testuok idaztean, ez diren gauzei izena ematen eta neure –baina beste edonorena izan daitekeen– errealitatea errekuperatzen ahale gintzean'.

37 'Bakoitzari bere izenez deituz gero, erantzunak izango liratekeela uste zuen Lewis Carrolen Eltxoak. Ez zuen inpresio hori Aliziak, gauzei behin eta berriz deitu arren ez zuelako erantzunik aditzen. Erantzuteko gai ez baziren, zertarako ziren izenak? Deitzaileentzat ziren akaso, pentsatu zuen Aliziak, izenak inportanteak.–Ez dakit! –esan zuen oiloaren tamainako Eltxo hark–. Dena dela, abisatu behar dizut hor oihanalde behere horretan ezerk ez duela izenik'.

38 Gweler Heiskanen a Beaumont 2023 am y datblygiadau disgyblaethol neu'r 'turn-talk' ym maes cysylltiadau rhyngwladol, yn benodol wrth i garfanau critigol ôl-bositifistaidd gael eu sefydliadolli yn is-ddisgyblaeth o bwys. Gweler Stow 2007 am ddadl fwy gochelgar dros y 'troad llenyddol' yn y gwyddorau gwleidyddol a chymdeithasol yn gyffredinol.

individuals who have lives' (2013: 282). Gan ddilyn Jacques Derrida a ddeil nad oes gwahaniaeth absoliwt rhwng, er enghraifft, ffuglen a deunydd anffuglennol neu dystiolaeth a llenyddiaeth, haera fod perthynas agosach rhyngddynt nag yr hoffem hwyrach ei chydabod, '[j]ust as memory makes no sense without the notion of forgetting, so testimony makes no sense without the concept of fiction.' Dadleua mai un o ddibenion iaith *lenyddol* yw amlygu gwahaniaethau [distinctions] nad ydynt yn adlewyrchu realiti sydd eisoes wedi'i gorlannu'n gysurus ac mai'r cwbl a wna iaith yw dynodi dosbarthiadau rhagosodedig (2013: 283). Yn hytrach, 'as language produces them, these distinctions fall apart: they do not hold firm'. Wrth gyfeirio at Rancière a'i awydd i berthnasu'r broses o ysgrifennu creadigol i'r 'estheteg sylfaenol' wrth graidd gwleidyddiaeth ragosodedig, ceir 'aesthetic practices' eraill sy'n herio'r gyfundrefn hon, sef 'the existing order of the sensible' (2013: 284). Yn ôl y ddadl hon, felly, nid y gerdd neu'r nofel neu'r ffurf ffuglennol *fel y cyfryw* sy'n herio ein synnwyr o'r hyn sy'n synhwyrol ond yn hytrach 'a certain *type* of novel, a certain *type* of narrative, a certain *type* of story, even a certain *type* of academic account' (2013: 286).³⁹ Dadleuaf fod stori fer 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol' Sarrionandia yn enghraifft o'r 'certain *type* of narrative' hwn a bod yr awdur yn amlygu hyn mewn ffordd hynod o agored, addysgiadol bron, yn rhagair HINMY wrth gyfeirio at wybedyn Lewis Carroll er mwyn tynnu sylw at y ffaith bod 'rhai enwau a ffyrdd o fyw'⁴⁰ nad oes cofnod digonol ar eu cyfer.

Ynghlwm wrth 'primary aesthetics' cyfundrefnau rhagosodedig, ceir math arbennig o naratif, a hynny pan fydd cyfnodau o ansefydlogrwydd megis yn ystod chwyldro neu ryfel, neu yn ystod achlysuron coffa a atgyfnertha'r gyfundrefn dan sylw. Mae Edkins yn arddel y perthyn tymoroldeb llinellol [linear temporality] i'r math hwn o naratif sydd o'r pwys mwyaf i'r gyfundrefn a'i fod yn debyg i 'Walter Benjamin's homogeneous empty time, a form of time without which notions of "the historical progress of mankind" are not possible and Benedict Anderson's imagined community cannot hold'. Megis yn stori fer Sarrionandia, fe'n gwahoddir i oedi rhagor ynghylch y posibilrwydd nad yw treigl amser yn rhedeg yn llyfn ac y ceir 'a time where there is no past, present and future, but only one time, the time of the now' (Edkins 2013: 286). Soniwyd eisoes am y cyfeirio yng ngwaith Sarrionandia at Walter Benjamin. Yn *¿Somos como moros en la niebla?* unwaith yn rhagor, ond yn amlycach fyth yn enwedig yn sgil y defnydd o'r ferf 'goleuo'⁴¹ [que ilumina] sy'n cyfleu'r hyn sy'n herio, yn tarfu, yn anesmwytho ac yn anghyfarwyddo; bydd iwtopia yn goleuo ac yn ymlid ymaith yr 'amser gwag, homogenaid':

Ni pherthyn iwtopia i'r dyfodol ond goleua yn hytrach amser drwyddi draw. Ni ellir deall iwtopia yn gyflwr cronolegol terfynol o hanes ond fel goleuo sy'n croesi pob eiliad o hanes yn ddiacronig ac sy'n ffurfio ei sylwedd. Hanes, yn ei fersiwn swyddogol, yw'r enw a roddir i ddatblygiad

³⁹ Italeiddio yn y gwreiddiol.

⁴⁰ 'Izen eta izan batzuk agerian uztea' (Sarrionandia 2013: 9).

⁴¹ Mae'n dra thebygol felly y byddai Sarrionandia wedi darllen llyfr *Illuminations* (2007) gan Walter Benjamin erbyn ysgrifennu *¿Somos como moros en la niebla?*.

cynnydd, dyma'r naratif gronolegol sy'n egluro ac yn cyfiawnhau'r tra-arglwyddiaethu presennol. (2012: 794)⁴²

Un o gonglfeini'r iwtopia gwleidyddol y cyfeiria Sarrionandia ato yw cydnabod, clodfori a harneisio grym gwahaniaeth yn y byd, yn ogystal â'i holi a'i stilio. Dyma ail ystyr 'heteroleg' yn yr erthygl hon, sef 'the study of differences', y tro hwn gan y theoriwyr gwleidyddol Naeem Inayatullah a David Blaney (2004: 15).⁴³ Trafoda'r economegydd-athronydd Amartya Sen – sydd hwyrach yn fwy adnabyddus am ei waith ar y berthynas rhwng mathau penodol o ryddid a chyfiawnder – yr agwedd hon ar gydfodoli dynol yn ei lyfr *Identity and Violence: The Illusion of Destiny*. Yn y llyfr hwn, sy'n rhannol seiliedig ar atgofion personol,⁴⁴ mae Sen yn arddel bod y gred yng ngrym tra-arglwyddiaethol un wedd yn unig ar hunaniaeth yr unigolyn – ei grefydd neu ei genedl, er enghraifft – yn cynrychioli perygl yn hytrach nag ystyried yr hunaniaeth honno'n gyfuniad anghydryw o 'diverse diversities' (2006: 13). Mewn byd cythryblus, dadleua nad yw cydnabod yr angen i ystyried beth fyddai hyd a lled hunaniaeth fyd-eang yn anghydnaws â thalu sylw i broblemau lleol a chenedlaethol (t. 180), a chyda hynny, prif obaith y dyfodol yw 'the plurality of our identities, which cut across each other and work against sharp divisions around one single hardened line of vehement division that allegedly cannot be resisted' (2006: 16). Mae'r rhain, gan addasu geiriau'r bardd Derek Walcott, yn ernes i gyfeiriad sicrhau 'that our mind is not halved by a horizon' (2006: 186). Anodd osgoi tybio felly y byddai Sarrionandia yn cydsynio â chloriannu o'r fath. Mewn cyfweiliad gyda'r awdur, dywedodd:

Yn *¿Somos como moros en la niebla?* the whole thing is about difference, violence, power relations but regarding the national question, conceiving of the idea of homeland, well, we aren't anything. What are you? Physically I'm nothing, what am I? You can say what ever you want to say you are, you can have references etc, but culture is also a choice, a construction as well. So my thinking on this is that everything, culture, homeland and suchlike should be considered a construction.⁴⁵

Dyma hoffter Sarrionandia o weledigaethu ontoleg wleidyddol ar sail negativedd (*negativity*) gan fod yn y nacáu rhannol hwn y dull a'r modd i bweru ac eirioli dros

42 'La utopía no es algo futuro, sino que ilumina todo el tiempo. La utopía no se puede comprender como un estado final cronológico de la historia, sino una iluminación que atraviesa diacrónicamente cada momento de la historia y constituye su substancia. La historia, en la versión oficial, es el nombre que recibe el desarrollo del progreso, es el relato cronológico que explica y justifica la dominación existente'.

43 Yn wir, bernir ganddynt y dylid ailddychmygu disgyblaeth cysylltiadau rhyngwladol yn 'theory of intercultural relations or perhaps rediscovered as an important site of "heterology"' (2004: 15).

44 Diddorol nodi i Sen ddyfynnu, fel Sarrionandia, llinell gyntaf cerdd 'Burnt Norton' yn ei ragair fel a ganlyn, 'With a little help from T. S. Eliot, I was able to convince myself that "Time present and time past, / Are both perhaps present in time future." By the time the book was done, it was as much concerned with the role of identity in historical and contemporary situations as with prognostications of hereafter' (2006: xvii).

45 Gweler Carlin 2024: 217.

wahaniaeth gwleidyddol yn ogystal â'i broblemu'n ddiddiwedd, gan mai'r hyn a arweinia at wneud 'the universal concrete in this case is not its content but its limitation' (Kapoor a Zalloua 2021: 17). Mae ei lenyddiaeth a'i ysgrifennu traethodol yn gyforiog o'r math hwn o athronyddia. Er enghraifft, yn 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol', ymedy Ismael Larrea ag Iwerddon ar gwch morwyr Gwyddeleg eu hiaith. I ategu cyffredinrwydd negyddol y ddau barti – a berthynai iddo yntau a'r morwyr fel ei gilydd – rhoddir i'r gosodiad frawddeg ar ei phen ei hun: 'Ni ddeallwn yr un gair ganddynt' (Sarrionandia 1995: 21),⁴⁶ a hynny yng nghyd-destun trigo'r morwyr *in extremis terrae finibus*. Yn rhagair HINMY yn 2013, wrth drafod y cyfyngderau a'r helyntion bywyd yr ysgrifennai amdanynt mewn alltudiaeth ddaearyddol a meddyliol, fe'u dosberthir yn ddau gategori fel a ganlyn, 'y pethau a ddeallwn a'r pethau nas deallwn'.⁴⁷ Mewn cyfweiliad â'r awdur, gan gyfeirio at y bardd Ofydd, ail-luniodd Sarrionandia 'theori negyddol' Gwybedyn Lewis Carroll y soniwyd amdano eisoes:

They exiled him to an outpost of the Black Sea. The Barbarians lived there outside the Roman empire and while there he wrote the *Tristia* poems and there he has a very good line which defines very nicely your question, dealing with the relativity between cultures. Which means you are both the barbarian and nobody is the barbarian. To be the barbarian is to be 'out of place' and in that sense Ovid understood that very well. More or less it goes like this, 'Barbarus hic ergo sum quia non intelligor illis' meaning 'Here, I'm the barbarian as they cannot understand me'. I don't understand them, so I'm the barbarian. For a Roman to say that is a very powerful thing.⁴⁸

Casgliad

Yn y rhagair i'w lyfr *Identity and Violence*, wrth ddadlau bod cyfyngu ar hunaniaeth pobl i un agwedd dra-arglwyddiaethol ond yn arwain at wrthdaro di-ben-draw, cyffelyba Amartya Sen y duedd hon i or-gynildeb theoreiddio fel a ganlyn, '[t]he reductionism of high theory can make a major contribution, often inadvertently, to the violence of low politics' (2006: xvi). Dadleua Jenny Edkins hithau fod gan rai straeon y potensial i weledigaethu ffyrdd gwahanol o darfu ar gyfundrefnau rhagosodedig yr hyn sy'n synhwyrol, gan ei alw'n '*another politics*, where the impossibility of any partition of the sensible without remainder is acknowledged' (Edkins 2013: 289).⁴⁹ Mae'r diffyg cynildeb ynghlwm wrth 'gyffredinrwydd negyddol' yn rhan amlwg o ysgrifennu Joseba Sarrionandia ac ymgordedda'r hoffter hwn drwy stori fer 'Amser Presennol ac Amser Gorffennol', gan amlygu'r ddau fath o heteroleg a drafodwyd yn yr erthygl.

Wrth gyflwyno cysyniad taleithu [provincializing], yn hytrach na deisyfu 'dial ôl-

⁴⁶ 'Ez nien ezer ulertzen'.

⁴⁷ 'Konprenitzen nituen gauzez eta konprenitzen ez nituenez'.

⁴⁸ Gweler Carlin 2024: t. 42.

⁴⁹ Italeiddio yn y gwreiddiol.

drefedigaethol’ ar y bydolwg Ewropeaidd, gofynna’r hanesydd Dipesh Chakrabarty ‘how this thought – which is now everybody’s heritage and which affect us all – may be renewed from and for the margins’ (2000: 16). Er bod cysyniad Chakrabarty yn weithredol ar y lefel drosiadol ac yn amlwg fyd-eang ei ergyd, dadleuaf y gellid defnyddio’r trosiad o chwith, sef ystyried yn gyfochrog sut olwg fyddai ar adnewyddu ‘from and for the margins’ o’r tu mewn i’r gofod Ewropeaidd? Byrdwn tebyg sydd gan Naeem Inayatullah a David Blaney yn eu llyfr ar ‘broblem gwahaniaeth’ yn nisgyblaeth Cysylltiadau Rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol yn gyffredinol, gan nodi bod angen ailddarganfod ac ailddychmygu’r Gorllewin a chan ddifaru diffyg deialog ‘far away *and nearby*, we might have come to understand the need to defend and demonstrate the vibrancy and depth of Western culture(s) ... so that we might have replaced relationships of violence and domination with dialogue’ (2004: 14–16).⁵⁰ Yn ei hymdriniaeth â’r nofel Gymraeg hyd at 1990, cyfeiria Enid Jones hithau at y tensiwn cynhenid, cynhwynol ac annatrys, fe ymddengys, rhwng ymwahaniaethu ac ymuniaethu fel a ganlyn, ‘[b]odolaeth cenhedloedd eraill, a’r gwahaniaethau rhyngddynt hwy a hi, sy’n gwneud y genedl unigol yn ymwybodol o’i harbenigrwydd ... [y]n fyr, gellid dadlau bod ymwahaniaethu yn rhagamod ymuniaethu’ (2008: 6). O gyrion cymharol disgyblaeth astudiaethau Iberaidd, mynn y theorïwr llenyddol Joseba Gabilondo fod cyffredinolrwydd yn bosibl yn ein byd, ond i hwnnw ddeillio o’r myrdd o fydolygon neilltuol ac i’r rhain gael eu cydnabod ar hyd ac ar led. Mewn dyfodol o’r fath, ‘hanfod cyffredinolrwydd fydd dyfodol amryfal ei ffyrdd’ (2019: 113).⁵¹ O benodolrwydd y Fasgeg, atega Joseba Sarrionandia y cyfan o’r uchod, sef nad oes modd i gyffredinolrwydd y ddynolryw ddechrau dod i’r golwg oni bai i ddiwylliannau gael eu creu a’u hystumio drachefn a thrachefn yn lleol:

Y mae cwlwm anymwybodol rhwng pob iaith sy’n seiliedig ar gydsefyll y naill gyda’r llall, a hynny am nad ydynt yn anghyson â’i gilydd ond yn hytrach yn ategu ei gilydd ... os gall llenyddiaeth y Fasgeg gyfrannu rhywbeth, nid drwy ei throsleisio y bydd hyn yn digwydd, bid sicr, ond yn hytrach drwy ddarganfod lleoedd, amseroedd a dulliau anhrosglwyddadwy er mwyn creu ystyr. Mae’r rhain yn benodol, ac oherwydd hynny felly yn gyffredinol, fel yn achos pob iaith arall. (2012: 845)⁵²

Yn ei lyfr *Politics on the Edges of Liberalism*, mae’r damcaniaethwr actifyddiaeth wleidyddol Benjamin Arditi yn llunio ‘arc ymfudol’ i wleidyddiaeth fodern a ymlwybra drwy wladwriaeth sofran y cyfnod absoliwtaidd, ymlaen i bau ryddfrydol gwleidyddiaeth plaid a thrwodd i gymdeithas sifil a’r byd uwchwladwriaethol cyn i’r hyn a eilw’n ‘post-

⁵⁰ Yr awdur sydd wedi italeiddio.

⁵¹ ‘la universalidad se conjuga en futuro diverso’.

⁵² ‘En cada lengua están las demás integradas inconsciente y solidariamente, porque no se contradicen sino que se complementan ... si algo puede aportar la literatura vasca, no es, desde luego, el doblaje, sino el descubrimiento de espacios, tiempos y modos intransferibles a los que da significado. Que son específicos y por ello, universales como los de las demás lenguas’.

liberal archipelago' ymrithio o'n blaenau. Dadleua na fydd yr 'ongoing migrations' hyn yn dileu statws gwleidyddol y wladwriaeth na chwaith yn arwain at dranc sefydliadau pleidiol ond yn hytrach 'they simply expand politics beyond electoral citizenship, territorial representation and the territorial borders of the nation-state by carving out *supplementary spaces* of political exchange' (2007: 145).⁵³ Teg yw casglu mai dyna yn fras yw dadansoddiad a bydolwg Joseba Sarrionandia, a bod y straeon y cyfeiria Jenny Edkins atynt sy'n herio neu'n tarfu ar luniad y 'synhwyrol', gan rannol bweru *another politics*, ynghlwm wrth y ffordd y mae'n cysyniadu'r archipelago hwnnw.

⁵³ Italeiddio yn y gwreiddiol.

Cyfeiriadau

- Aldekoa, I. (2004), *Historia de la literatura vasca* (San Sebastián: Erein).
- Arditi, B. (2007), *Politics on the Edges of Liberalism: Difference, Populism, Revolution, Agitation* (Caeredin: Edinburgh University Press)
- Aresti, G. et al. (1983), *T. S. Eliot euskaraz*, <<https://www.armiarma.eus/emailuak/hordago/eliot.htm>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2025].
- Azkorbebeitia, A. (2001), 'Joseba Sarrionandia narratiba eta prosa lanak: irakurketarako gonbitea', yn Uribe, K. (gol.), *Azken Aldiko Euskal Narratiba. Sortzaileak eta Irakurleak* (Bilbao: Udaiko Euskal Unibertsitatea).
- Benjamin, W. (2007), *Illuminations* (New York: Schocken Books).
- Carlin, P. (2024), *Political Community in Minority Language Writing: Claiming Difference, Seeking Commonality* (London: Palgrave Macmillan).
- Chakrabarty, D. (2000), *Provincializing Europe: Postcolonial Thought and Historical Difference* (Princeton: Princeton University Press).
- Delgado, L. (2014), *La nación singular. La cultura del consenso y la fantasía de normalidad democrática: La cultura del consenso y la fantasía de normalidad democrática (1999–2011)* (Madrid: Siglo XXI de España).
- Edkins, J. (2013), 'Novel writing in international relations: Openings for a creative practice', *Security Dialogue*, 44 (4), 281–97.
- Egaña Etxeberria, I. (2024), 'Conflict as a Place of Consensus: The Representation of Political Violence in Harkaitz Cano's *Twist* and Ramon Saizarbitoria's *Martutene*', yn Miguélez-Carballeira, H. (gol.), *Postcolonial Spain: Coloniality, Violence and Independence* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- English, R. (2003), *Armed Struggle: A History of the IRA* (Basingstoke: Macmillan).
- Etxepare Euskal Institutua (2016). *Etxepare Euskal Institutuak Euskara eta Euskal Kultura irakurletza berria zabalduko du Habanako Unibertsitatean, Kuban*, <[Etxepare Euskal Institutuak Euskara eta Euskal Kultura irakurletza berria zabalduko du Habanako Unibertsitatean, Kuban | Etxepare Euskal Institutua](#)> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2025].
- Gabilondo, J. (2012), 'Literatur politikaz eta ekonomiaz globalizazioan. Sarrionandia, kanona, sariak eta merkatua', *Oihenart*, 27, 45–66.
- Gabilondo, J. (2019), *Globalizaciones: La nueva Edad Media y el retorno de la diferencia* (Madrid: Siglo XXI.)
- Heiskanen, J., a Beaumont, P. (2024), 'Reflex to turn: the rise of turn-talk in International Relations', *European Journal of International Relations*, 30 (1), 3–26.
- Inayatullah, N., a Blaney, D. (2004), *International Relations and the Problem of Difference* (London: Routledge).
- Jones, E. (2008), *FfugLen: Y Ddelwedd o Gymru yn y Nofel Gymraeg o Ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990*, cyfres 'Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig', Rowlands, Jones (gol.) (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Kapoor, I., a Zalloua, Z. (2021), *Universal Politics* (New York: Oxford University Press).
- Meltzer, F. (2018), 'Ruins and Time', yn Otten, W., a Schreiner, S. (goln), *Augustine our Contemporary: Examining the Self in Past and Present* (Notre Dame: University of

- Notre Dame Press).
- Miguélez-Carballeira, H. (2012), ‘“La literatura es eso, literatura”: The rhetoric of empty culture in Francoist and Neo-Francoist Discourses’, *Journal of Spanish Cultural Studies*, 13 (2), 189–203.
- Olaziregi, M. J. (2007), ‘Introduction’, yn Olaziregi, M. J. (gol.), *Six Basque Poets* (Todmorden: Arc Publications), tt. 10–26.
- Portela, E. (2016), *El eco de los disparos: Cultura y memoria de la violencia* (Barcelona: Galaxia Gutenberg).
- Press, L. (2021), ‘The Past, Present, and Future of the Cuban Internet’, yn Henken, T., a García S. (goln), *Cuba’s Digital Revolution: Citizen Innovation and State Policy* (Florida: University of Florida Press).
- Rancière, J. (2013), *The Politics of Aesthetics: The Distribution of the Sensible* (London: Bloomsbury).
- Rodríguez, E. (2014), *Itsasoa da bide bakarra: Joseba Sarrionandiaren lanetako itsas irudien irakurketa proposamen bat* (San Sebastián: Utriusque Vasconiae).
- Sarrionandia, J. (1981), *Izuen gordelekuetan barrena* <<https://www.armiarma.eus/emailuak/izuen/>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2025].
- Sarrionandia, J. (1995), *Hnuy illa nyha majah yahoo* (Poemak 1985–1995) (Donostia: Elkar).
- Sarrionandia, J. (2012), *¿Somos como moros en la niebla?* (Pamplona: Pamiela).
- Sarrionandia, J. (2013), *Hnuy illa nyha majah yahoo* (Poemak 1985–1995) (Donostia: Elkar).
- Sen, A. (2006), *Identity and Violence: The Illusion of Destiny* (London: W. W. Norton).
- Stow, S. (2007), *Republic of Readers: The Literary Turn in Political Thought and Analysis* (Albany: State University of New York Press).
- Thomas, A. (1973), *Cyffesion Awstin Sant* (Caernarfon: Llyfrfa’r M.C.).
- Traverso, E. (2016), *Left-Wing Melancholia: Marxism, History, and Memory* (New York: Columbia University Press).
- Whitfield, T. (2014), *Endgame for ETA: Elusive Peace in the Basque Country* (Oxford: Oxford University Press).